

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf / Your ref
Ein cyf / Our ref : MA(P)/KW/4648/17

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

23 Ionawr 2018

Annwyl Lynne,

Mae'n bleser gennyf ddarparu rhagor o wybodaeth am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC).

Statws Bagloriaeth Cymru Ôl-16

Rwy'n annog pob ysgol a choleg i symud tuag at fabwysiadu CBC ar ei newydd wedd mewn dwy brif ffordd: drwy'r cyfoeth o dystiolaeth ategol a'r dull mesur perfformiad arfaethedig.

Yn gyntaf, mynegodd *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19-oed yng Nghymru*, Estyn¹ a Chymwysterau Cymru² yn glir fod CBC yn werthfawr – yn enwedig lle y caiff ei fabwysiadu'n llawn gan fod ystod ehangach o weithgareddau i bobl ifanc yn y colegau a'r ysgolion hyn yn aml. Mae Tystysgrif Her Sgiliau newydd CBC yn gymhwyster Lefel 3 wedi'i raddio ac mae wedi ychwanegu mwy o drylwyredd at y cymhwyster. Roedd datblygiad CBC yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cynnwys Sefydliadau Addysg Uwch, cyflogwyr ac arbenigwyr o bob cwr o'r DU. Mae'r dull hwn yn gweithio. Ceir cefnogaeth gyffredinol i CBC. Nododd Cymwysterau Cymru yn eu hadroddiad ym mis Mawrth y llynedd, '*Yn gyffredinol, ceir cefnogaeth mewn llawer man am Fagloriaeth Cymru a'i nodau o ddatblygu sgiliau a phrofiadau dysgwyr ar gyfer astudio pellach a chyflogaeth.*'

Yn ail, mewn perthynas â threfniadau monitro, fel rhan o'r trefniadau cynllunio ac ariannu, mae Llywodraeth Cymru yn casglu data ar nifer yr awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach sy'n bwriadu astudio CBC ac rydym yn monitro'r ffigurau hyn gydol y flwyddyn. Caiff gwybodaeth am gyfranogiad dysgwyr ei chynnwys mewn canlyniadau data ysgolion a cholegau. Fel rhan o'r broses hon, disgwylir i ganolfannau adrodd yn ôl inni ynglŷn â'u dull o gael pawb i'w fabwysiadu erbyn 2019/20.

¹ Darpariaeth Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ar Iefel 3 mewn ysgolion uwchradd. Estyn, Gorffennaf 2012

² Adolygiad o'r broses o gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015. Cymwysterau Cymru,

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Felly, rydym yn disgwyl i CBC gael ei gynnig yn y rhaglenni dysgu ar gyfer pob dysgwr 16-19 oed. Yn 2014 gwnaed Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol gan fy rhagflaenydd yn nodi cyfnod pontio lle y byddai disgwyl i'r nifer sy'n astudio CBC gynyddu'n flynyddol. Eglurir hyn ymhellach yn y canllawiau a nodir gennych nes bod pawb yn ei fabwysiadu er mwyn cyflwyno CBC ar gyfer cofrestru yn 2019/20. Rwy'n disgwyl i ganolfannau fod â chynllun ar gyfer sut y byddant yn cyrraedd y targed hwnnw. Tan hynny, ni fyddwn yn rhoi cosbau ariannol am fethu â chyrraedd y targed. Nid wyf wedi dod i gasgliad eto ynglŷn â dulliau monitro neu gynnig cymhellion ar gyfer mabwysiadu CBC o 2019/20 ymlaen.

Mewn perthynas â'r pwynt ynglŷn â 'lle y bo'n briodol', mae'r canllaw, *Bagloriaeth Cymru ôl-16: cofnodi a mesur deilliannau* yn nodi mai'r nod yw bod dysgwyr sy'n dilyn Bagloriaeth Cymru ôl-16 yn gwneud hynny ar **y lefel briodol ar gyfer y dysgwr**. Mae fy llythyr blynyddol at y sector ysgolion ôl-orfodol sy'n amlinellu fy mlaenoriaethau hefyd yn gwneud priodoldeb CBC yn gliriach, er enghraifft, ni fyddwn yn disgwyl i ddysgwyr sefyll CBC ôl-16 Lefel 2 os ydynt eisoes wedi cyflawni'r lefel hon yn yr ysgol. Rwy'n fodlon rhannu'r llythyr hwn â'r Pwyllgor.

Mae disgwyl i Benaethiaid a Phrifathrawon ddefnyddio eu barn broffesiynol o ran penderfynu ar y rhaglen ddysgu gywir ar gyfer eu dysgwyr, a fydd yn cynnwys ystyriaethau o ran lles y person ifanc a'i allu i gyflawni ei botensial. Nid oes unrhyw feini prawf a all bennu'n fanwl gywir i bwy y byddai'r ystyriaethau'n berthnasol y tu hwnt i'r eithriadau yn y canllawiau, ac arweinwyr ysgolion a cholegau sydd yn y sefyllfa orau i ddod i benderfyniad ynglŷn â hynny.

O ran anogaeth yn y dyfodol, fel rhan o gyfres newydd o fesurau perfformiad ôl-16, byddwn yn cynnwys mesurau cyflawni CBC, er nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto ynglŷn â phryd y cyhoeddir y rhain ar gyfer ysgolion a cholegau unigol.

Barn prifysgolion

Diben fy llythyr at is-gangellorion prifysgolion oedd rhoi diweddariad iddynt ar y newidiadau i CBC ac i roi sicrwydd iddynt o ran y trylwyredd ychwanegol yn y cymwysterau diwygiedig. Ni ofynnais am ymatebion. Roedd swyddogion wedi profi polisiau derbyn prifysgolion a'u cyfadrannau o'r blaen, ac rwyf wedi gofyn i swyddogion barhau i'w diweddarau. Yn y cyfamser, maent wrthi'n ymgysylltu â phrifysgolion grŵp Russell, a phrifysgolion eraill i friffio swyddogion derbyn, rhoi sicrwydd iddynt ac ymateb i unrhyw gwestiynau ynglŷn â gwerth CBC. Mae UCAS yn nodi y bydd cyflwyno CBC yn raddol fel hawl genedlaethol yn cynyddu'r nifer fydd yn ei astudio, sy'n golygu y bydd tiwtoriaid derbyn yn gweld sawl fersiwn wahanol o Fagloriaeth Cymru:


Gwyddom fod nifer o brifysgolion Grŵp Russell wedi dweud yn glir eu bod yn gweld gwerth i CBC a'u bod yn mabwysiadu dull fwyfwy hyblyg o ran ei gydnabod yn eu cynigion. Mae'r rhai nad ydynt yn ei dderbyn fel gofyniad mynediad penodol yn dal i weld ei werth o ran y sgiliau a'r profiadau ehangach y mae'n ei roi i'r person ifanc, a gall gyfoethogi ceisiadau.

Yn olaf ar y pwynt hwn, hoffwn atgoffa'r Pwyllgor bod gwerth CBC yn mynd y tu hwnt i fynediad i brifysgol.

Adolygiad Cymwysterau Cymru

Ym mis Mawrth 2016, arweiniodd a chyhoeddodd Cymwysterau Cymru *Adolygiad o'r broses o gyflwyno'r Fagloriaeth Cymru newydd o fis Medi 2015*. Yn yr adolygiad hwnnw roedd argymhelliad iddynt adolygu sut y caiff y Dystysgrif Her Sgiliau ei hasesu a'i strwythuro. Rwyf ar ddeall y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi yn y flwyddyn newydd. Bydd y dystiolaeth hon yn helpu Llywodraeth Cymru i barhau i adolygu CBC.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams', written in a cursive style.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education